www.peace-massage-therapy.co.uk

Aled Evans

OFTEC registered installer
Installation of Oil boilers and Oil tanks
Ground and Air Source Heat Pumps
Solar Thermal Panels
Unvented Cylinders
01267 290977 or 07966592183

Harcourt Tree and Garden Services

Tree Surgery, Felling and Removal
25 years experience
Garden work, All types of Fencing
And Gwili Firewood

Seasoned hardwood or softwood logs
Ian Harcourt 01267253368 or 07812158825

Gwalia Stores

Peniel Road 01267 890345
**Fuel, Shop, Post-office
Licensed,
Hot & cold food to go,
Coffee,
Newspapers and magazines**



Tom Eldred
Saer Coed - Carpentry

All aspects of carpentry undertaken including roofing, timber frames, stud work, decking, tiling, flooring and kitchens.
Tel - 07854 167670
Pantyyffordd, Llanpumsaint, SA33 6BU

THE OLD DAIRY DOG HOTEL

Seven Brand new luxury kennels
Spacious individual kennels with their own covered patio area
Underfloor heating for our guests' comfort
18 acres of private grounds to exercise
Fully licensed,
30 years' experience caring for clients' dogs
To view our kennels phone 01267 281628
or 07717 345277
or email www.theolddairydoghotel.co.uk

Gwyrdd Enterprises

Property Maintenance - Household Repairs
Patio Cleaning - Drain unblocking
Carpet, Rug and Upholstery Cleaning
Car Battery Diagnosis, Jumpstarting & Replacement.

TV and computer Set Up
If you can't see what you need just ask
Contact Jon 07943 948173
Based in Llanpumsaint
Gwyrddenterprises@gmail.com




Hafan Holistaidd
Holistic Heaven

Adweitheg / Reflexology
Tyluno / Aromatherapy Massage
Indian Head Massage
Thermal-auricular (Ear candling)
Reiki

Meleri Brown MAR
mels.brown@hotmail.co.uk 07855488660
Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist
Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin,
SA33 6LT

Gwalia Garage

Peniel Road Rhydargaeau
MOT, servicing, tyres, repairs
Tel: (01267) 253599
JRB & K Thomas
Peniel Road Carms SA32 7DR



Virtue Holistics

Holistic therapies
Reflexology
Indian head massage
Functional facial.
Megan Williams
07717763460.



Café Felinfach@Little Mill
Equestrian

Opening hours: Tuesday - Sunday 9:30 - 15:30

Contact: info@littlemillequestrian.co.uk
07951 601612

Local Business? You can advertise here for £50
Includes an advert in Village Voice for 6 issues,
plus a webpage linked to yours on
www.llanpumsaint.org.uk, or just £5 an issue for
advertising in Village Voice.

Contact Carolyn Smethurst 01267 253308
or email info@llanpumsaint.org.uk



Llais y Llan rhagfyr 2023

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 Ionawr 2024

CRONFA CYMUNEDOL FFERM WYNT
COEDWIG GORLLEWIN BRECHFA



BRECHFA FOREST WEST WIND FARM
COMMUNITY FUND

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk


Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan

Dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd iachus yn 2024

i bawb o gwmpas y pentref. Dyma'r amser y meddylir am y rhai sydd wedi symud i ffwrdd, neu wedi marw. Cofiw'n amdanynt yn dyner gydag atgofion melys. Cyfle hefyd i groesawu newydd ddyfodiadau sydd wedi dewis Llanpumsaint yn gartref. Gobeithio y gwnânt fwynhau yma gyn ymuno yng ngweithgareddau'r ardal.

Diolch i'n cefnogwyr oll. I Arwyn Thomas am gyfieithu ac am eu herthyglau cyson; Clare a Veronique am olygu a pharatoi'r copi at argraffu, a'r trosglwyddwyr sy'n sicrhau i'r Llais gyrraedd eich drws.

Carolyn Smethurst
Cadeirydd Cyfnewidfa
Gwybodaeth Llanpumsaint



Diwrnodau i'r Dyddiadur

- Gwener 15fed Rhagfyr – **Cwis Parti Nadolig** yn y Neuadd – 7 o'r gloch
- Sadwrn 16eg Rhagfyr - **Tafarn y Neuadd** 5 o'r gloch
- Mawrth 19eg Rhagfyr – **Gwasanaeth Carolau** – 7 o'r gloch yn yr Eglwys
- Gwener 22ain Rhagfyr – **Tafarn y Neuadd** – 5 o'r gloch
- Sul 24ain Rhagfyr - **Gorymdaith Sion Corn** - 1 o'r gloch Nantyrnys
- Sul 24ain Rhagfyr - **Gwasanaeth Carolau Caersalem** 1.30 o'r gloch - Eifen ddwyieithog - Am wybodaeth cysylltwch ag Eleri Morris 01267 253895.
- Sul 24ain Rhagfyr - **Cymun Ganol Nos Nadolig** - 11.30 yp - Eglwys.
- Gwener 29 Rhagfyr – **Tafarn y Neuadd** - 5 o'r gloch
- Us 31ain Rhagfyr - **Gweld yr hen flwyddyn allan a chroesawu' r newydd** - Disco a cherddoriaeth fyw - Neuadd 8 o'r gloch tan yn hwyr. Dewch a'ch diod a danteithion - £10 y tocyn oddi wrth Eddie Whitehead 07494023130 neu eddie.ynyswen@gmail.com <<mailto:eddie.ynyswen@gmail.com>>

Digwyddiadau unigol yn y flwyddyn newydd

- Gwener 5ed Ionawr – **Codi Canu** –7 tan 9.30 – Dewch a'ch diod a danteithion gyda £2 am gost y Neuadd.
- Mawrth 9fed Ionawr – **Cyfarfod arferol Cyngor Cymuned** – Neuadd 8 o'r gloch
- Gwener 19eg Ionawr (dros-dro) - **Cwis yn y Neuadd** Agor am 7 erbyn cychwyn am 7.30 - £1 y pen + £5 y bwrdd i'r timau lan hyd 5. Dewch a'ch diodydd a danteithion - gwobrau arian i'r enillwyr.
- Gwener 26ain Ionawr - **Codi Canu** - Neuadd 7 tan 9.30 o'r gloch - Dewch a'ch diod a'ch danteithion - £2 i gwrdd â chost y Neuadd.
- Gwener 26ain – Sul 28 Ionawr - **Arolwg Adar y Gerddi**
- Gwener 2ail Chwefror - **Codi Canu** - Neuadd 7 tan 9.30 o'r gloch - Dewch a'ch diod a'ch danteithion - £2 i gwrdd â chost y Neuadd.
- Gwener 16 Chwefror (dros-dro) - **Cwis yn y Neuadd** Agor am 7 erbyn cychwyn am 7.30 - £1 y pen + £5 y bwrdd i'r timau lan hyd 5. Dewch a'ch diodydd a danteithion - gwobrau arian i'r enillwyr.
- Sadwrn 17eg Chwefror – **Dawns Fawr a Chinio Unigryw gyda No Mean Biscuit** – cerddoriaeth siglo a Lladin gyda bwyd cartref blasus. Drysau'r Neuadd ar agor am 7 o'r gloch. Ffoniwch Barry i logi tocyn 07887834133 am £15 yr un.

Digwyddiadau Cyson

- **Bowlïo Dan-do** - Neuadd - nos Lun ac Iau - 7.30 tan 9.30 Bwriedir cychwyn 1af o Ionawr (dros-dro)
- **Caffi Bach yr Eglwys** - Dydd Mawrth 11.30 tan 2.0 o'r gloch. Olaf 19 Rhagfyr i ail-gychwyn 2 Ionawr
- **Aur Zumba** – Ar eich eistedd – Neuadd – Mercher 2 tan 3 o'r gloch – dosbarth newydd yn y prynhawn i gychwyn ar yr 17eg o Ionawr.
- **Zumba** yn y Neuadd Goffa ar Nos Fercher o 7 – 8; croeso i rai newydd ar unrhyw achlysur; gychwyn 17 Ionawr
- **Cwtsh Cynnes** - Neuadd – Dydd Iau 10 tan 1 o'r gloch – creffttau, cardiau, tennis bwrdd a mwy i'w ganlyn gan ginio cartref. **Olaf 21ain Rhagfyr i ail-gychwyn 4dd Ionawr.** Croeso i bawb!

Gwasanaethau Crefyddol

- **Eglwys Llanpumsaint - Ewcharist Sanctaidd** am 9 o'r gloch fore Sul
Chwarae gyda Duw – dydd Mawrth 3.45 tan 4.45 – stori, gweithgaredd a rhywbeth i fwyta i blant gyda'u rhieni adeg y tymor.
Cylch DOT - Pluant dros 10 oed - Eglwys Dydd Iau 5.30 tan 7.30 adeg y tymor ysgol.
Llanllawddog a Celynin Bronwydd 11 bore bob Sul
Cysylltydd – Y Parch Canon Hill – Deon 01267 468432 – matthewhill@cinw.org.uk
Tudalen Facebook: Llanpumsaint Bronwyddand Llanllawddog Churches
- **Capel Caersalem** Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch ag Eleri Morris 01267 253895.
- **Capel Ffynnonhenri** - Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch â Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 neu Gwyn Nicholas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** - Gwybodaeth am wasanaethau oddi wrth Meinir Jones (Ysgrifenyddes) 01267 253532

Gwasanaethau wythnosol y pentref

- Dydd Mawrth - Cerbyd y Swyddfa Bost - 2 hyd 3.45 o'r gloch – Gyferbyn a'r tafarn
- Dydd Mercher – Cerbyd y Llyfrgell 10.45 hyd 11.15 ger y Neuadd - 11.15 hyd 11.45 ger y tafarn – Noder yma unwaith bob tair wythnos yr un adeg a threfniant caglu'r bagiau du.
- Dydd Mercher - Cogydd Bara - gwasanaeth i'r tŷ - 07971 740505
- Dydd Mercher - Pysgod - gwasanaeth i'r tŷ - 07779 987305
- Dydd Iau - Ffrwythau a llysiau - gwasanaeth i'r tŷ - 07969 047045
- Dydd Gwener – Cerbyd y Swyddfa Bost - 1 hyd 3 o'r gloch – Gerllaw'r Tafarn.

Pwyllgor Lles ac Adloniant (Maes Chwarae Llanpumsaint)

Mae'n amser tyngedfennol o'r flwyddyn unwaith eto, felly fydd Siôn Gorn ar ei orymdaith ar draws y pentref unwaith eto brynhawn Nos Wyl Nadolig. Daw i ben yn y Neuadd lle bydd Siôn Corn yn dosbarthu anrhegion i'r plant o'i faneg. Gan gychwyn unwaith eto o Nant-yr-ynys am un o'r gloch wedi'r cylch arferol bydd yn cyrraedd y Neuadd erbyn 2.30yp. Yno bydd diodydd cynnes a danteithion yn aros, gyda raffl i gloi'r gweithgareddau. Edrychwn ymlaen at eich croesawu'i digwyddiad a diolch i Sgaffalde SWS am noddi'r achlysur.

Yn dilyn y digwyddiadau amrywiol eleni yn sgil Cronfa Bwydo ein Cymuned, drwy haelioni Cronfa elusennol Fferm Wynt Brechfa, cytunwyd ar gynllun i gyflwyno mwy o liw a phlanhigion i'r Maes Chwarae. Bydd y cynlluniau terfynol yn cael eu cyflwyno yn Ionawr, gyda'r bwriad o gynnwys pawb yn y plannu pan ddaw'r Gwanwyn. Daw gwybodaeth bellach yn rhifyn Chwefror o Lais y Llan a hefyd ar Facebook.

Clwb Cant - Enillwyr diweddaraf

- Mis Medi – 1af £20 Megan Eldred 29 - Ail £15 Felix Merry 98 – 3dd £10 Catherin Gard 116
- Hydref – 1af £20 Lisa Williams 5 – Ail £15 Dave Robinson 90 – 3dd £10 Dylan Jones 56
- Tachwedd – 1af £20 Barbara Cable 51 – Ail £15 John Richards 1 - 3dd £10 Sandy Maher 37

Byddem fel Pwyllgor yn estyn croeso i unrhyw un sy'n awyddus i ymuno yn y gweithgareddau codi arian a chynnal y Maes Chwarae. Cysylltwch gyda parcllanpumsaintpark@gmail.com neu siaradwch ag Aaron Jones 07814157946 neu unrhyw aelod o'n Pwyllgor.

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa

Dathlwn 5 mlynedd y mis hwn o weithgarwch Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa wedi cyfrannu £2.2 miliwn at 248 o brojectau lleol. Ceir mwy o wybodaeth am achosion a rhestr lawn o'r holl gyfraniadau ar ein gwefan. Penderfynodd aelodau ein panel fuddsoddi'n drwm ar gyfleusterau lleol ac ysgolion. Yn Llanpumsaint mae hyn wedi cynnwys y Maes Chwarae sydd wedi derbyn £45,000; Boiler newydd ac atgyweirio'r Neuadd; costau cynnal y Cwtsh Cynnes ynghyd a chostau gwresogi a glanhau. Gwêl yr Ysgol effeithiau'r cynllun Cynefin ynghyd a dosbarth newydd y tu fas adeiladwyd amser Hanner Tymor.

Yn ein cyfarfod fis Tachwedd dyfarnwyd y canlynol i Lanpumsaint:-

Neuadd Goffa - Rhoddodd aelodau'r Panel swm sylweddol i wella cyfleusterau. Bydd dros £199,000 yn cael ei wario i ymestyn yr adeilad (gwella'r toiledau, creu storfa a gwella'r Gegin a'r Bar.

Ysgol Llanpumsaint - Dyfarnwyd o leiaf £36,000 dros dair blynedd er mwyn cefnogi Clwb ar ôl Ysgol adeg y tymor. Bwriedir hyn i gefnogi rhieni sy'n gweithio, felly'n arbed mynd a'r plant yr holl ffordd i'r dre.

Llais y Llan - Bydd yn derbyn £3,000 y flwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf i gynnal y cylchgrawn. Dyma un o ddau broject a gefnogwyd dros gyfnod o 10 mlynedd am £30,000.

Heblaw hyn yn ystod 2023 elwodd nifer o fudiadau llai o'r Grant Bychan (hyd at £500) megis Y Bowlio Dan-do, diwrnod Hwyl, datblygu gardd yr Ysgol a Swper y Cynhaeaf.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Moïshe Merry rheolwr y Gronfa 07779457351.



Y Barcud Coch

Mae'r barcud yn ymwelydd cyson a'r awyr o amgylch Llanpumsaint. Oherwydd ymgyrch gadwraeth enfawr achubwyd yr aderyn oedd bron fynd yn golledig ganol y ganrif ddiwethaf. Bu un o aelodau'n pentref yn rhannol gyfrifol am hynny. Yn 1984 gwirfoddolodd Nick i amddiffyn y llawn dwrn olaf o'r barcud coch yn y wlad.



Cwmystwyth ger Aberystwyth oedd y ganolfan fagwraeth brin honno. Gan i'r barcud bartneru er mwyn bridio mor gynnar â mis Chwefror ei dasg gyntaf oedd darganfod safleoedd addas bosib. Byddai'r rhain yn cael eu harsylwi'n fanwl o bellter am barau'n paratoi nythu. Cysgodd Nick yn ei gar drwy'r holl oerfel er mwyn atal lladron. Gydag ond dau warden gwirfoddol prin fu'r llwyddiant, er iddynt wneud eu gorau glas. Daeth y perygl mwyaf o'r casglwyr wyau oedd yn fygythiol o drefnus ac yn barod i fynd a'r cwbl. Bu ymrafael a rhain yn brofiad rhwystredig iawn i Nick, ac yntau heb y pwerau i'w hatal. Yr unig gam allai wneud oedd rhoi gwybodaeth i'r Heddlu.

Hawddach fu hi weddi di'r cywion ddeor 'r gwaith o gofnodi cychwyn h.y. ymweliadau a'r nyth. Y bwydo a'r rhyngweithio ag adar eraill. Yr her nesaf oedd gosod y fodrwy BTD cyn iddynt ehedeg. Canfuwyd rhyw 5 i 6 nyth y flwyddyn honnon ac yn ôl cof Nick oroesodd rhyw 14 cyw. Penderfynwyd y flwyddyn ganlynol byddai milwyr y Gatrawd Gurkha y gwarchod y nythod a'r cywion. Beth amser wedyn ychwanegwyd y barcud coch Sbaeneg i gyfoethogi'r amrywiaeth. Bellach mae hyn i gyd yn hanes!

Anji Henderson

Amrywiol

Zumba Aur (Ar eich eistedd): Bydd Y Dosbarth Cumba newydd yn cychwyn ar yr 17eg o Ionawr am 2 o'r gloch yn y Neuadd. Ymarfer bach hamddenol fydd hwn ar eich eistedd gyda cherddoriaeth addas i hwyluso'r corff i ymlacio, ac ymledu hamdden. Felly os ydych am ymarfer eich hun yn araf i gerddoriaeth dewch atom a rhowch gynnig arni.

Cofrestrau Derbyn Ysgol Llanpumsaint o 1863: Benthycais y rhain o'r cychwyn hyd ganol yr 20fed ganrif oddi wrth Margaret Griffiths, sy'n bentwr mawr o wybodaeth. Rhaid nawr benderfynu sut allwn eu gwneud yn agored i bawb. Os oes gennych syniad cysylltwch â mi!
Carolyn Smethurst

Mae gennyf rai o lyfrau Arwyn Thomas ar werth: Hanes Llanpumsaint; Canmlwyddiant a Hanner Ysgol Llanpumsaint. Os ydych yn newydd i'r ardal mae yma gymaint o wybodaeth - rhywbeth handi i law'r hosan am £10 yr un gyda'r elw 'n mynd i Marie Curie. *Carolyn Smethurst*

Bowlio Dan-do Llanpumsaint a Nebo



Parhau ar nodyn cadarnhaol mae'r tymor newydd gyda 8 buddugoliaeth yn y 10 gem chwaraewyd. Felly ni sydd ar y brig yn yr Ail Adran gyda 81 o bwytiau a chyfanswm yr ergydion gwahaniaethol o 185.

Cynrychiolwyd y Clwb yng nghystadleuaeth Rincs y Cardiau Coch yn Unigol Pharau gan Kiernan, Dafydd, Catrin, Jill, Nikki, Ian, Robert ac Ioan. Chwareuir y rhan olaf o'r gystadleuaeth yn Ionawr, pan gymerwn ran yn y Triawdau hefyd. Daeth Catrin a Jill a chryn anrhydedd i'r Clwb wrth gynrychioli Cymru fel rhan o'r 30 gwraig yng nghystadleuaeth Prydain yn Melton Mowbray. Yno buont Ian yn erbyn Iwerddon, Yr Alban a Lloegr. Trydydd fu tynged Cymru y tu ôl i dîm cryf Iwerddon.

Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.

Dymuna'r Clwb Nadolig Llawn a blwyddyn newydd hapus a llewyrchus i'w holl aelodau a chyn-aelodau.



Digwyddiad Coed a Carol Nadolig y Cyngor Cymuned



Cwis Nos Wener



Meistri'r Cwis Ysblennydd

Nos Wener y 15fed fydd y Cwis terfynol y flwyddyn gyda chogydd Nadoligaidd iddi drwyddi draw. Er i'r ffurf heb newid (pos, llun, clip, cerddoriaeth a phynciau) mi fydd y Cwis yn cynnig fwy o rialtwch ddiwedd blwyddyn. Bydd mwy o wobrau ar y pryd, gan gynnwys y gorau am siwmpwr Nadolig, digon o gerddoriaeth dymhorol, gan ddatgelu'r canlyniadau terfynol y gynghair.

Ar hyn o bryd mae'n agos iawn gydag ond 10 pwynt yn gwahanu'r pum tîm uchaf, felly cael a chael yw hi i lwyddo.

Ond rhannol yw hyn oherwydd mae nifer o dimau yn hapus i gystadlu a mwynhau bob mis.

Hoffai Darrel a minnau elwa o'r cyfle i ddiolch i'r holl dimau a'r chwaraewyr am eu cefnogaeth eleni. Bu 23 tîm yn cystadlu, rhai am unwaith yn unig ond fwy na'r hanner yn gyson.



Enillwyr y Gwisgo LanYsblennydd

Bu saith tîm tua'r brig y tri cyntaf yn o leiaf un Cwis, a bu cyfartaledd y 15 cyntaf yn 60.7% felly A neu B bob tra gwnaeth pawb ymdrech arbennig i'r gwisgi lan ysblennydd. Edrychwn ymlaen at weld pa fath o ddeintyddion fydd pobl yn dod gyda nhw, wnaeth amrywio bob cam lan i'r pizza, lliain ford a gwin mewn bwced oer, i gyd wedi eu hebrwng yma.

Felly diolch i bawb unwaith eto gan ddymuno Nadolig arbennig i bawb a hapus rwydd ac iechyd yn y flwyddyn newydd.

Sara a Darrel

Codi Canu Nos Wener

Bu'r gynulleidfa Codi Canu bellach yn cwrdd yn y Neuadd Goffa am 7 mis. Erbyn hyn byddwn yn cyfarfod ddwywaith y mis, ar Nos Wener gyntaf a'r pedwerydd o saith tan hanner awr wedi naw. Rydym oll yn mwyhau cerddoriaeth a chyd-ganu ein ffefrynnau gyda'r artistiaid gwreiddiol. Sdim ishe fod yn ganwr mawr i ymuno a ni, felly dewch am y mwynhad cymdeithasol, gan gofio dod a diod a rhywbeth blasus, i fwynhau.

Dewisol yw'r cynnig felly dewch atom i flasur awyrgylch a chanu os dewiswch. £2 yw'r mynediad i dalu am y Neuadd a chyfle i ennill yn y raffl. Gwyr pawb fod torri mas i ganu yn llesol i'r iechyd, felly beth am ymuno a ni yn 2024 i weld beth ddaw wedyn 🎵 🎶

Carolyn Atkinson

Jacdo yn Clecian

Tebyg iawn eich bod wedi gweld drudwys y murmur naill yn yr awyr gored nu ar y teledu. Gwelir y ganolfan nesaf atom mewn coedwig gerllaw Drefach Felindre. Wel i ni'n ffodus i gael Clecfan Jac-y-dos yma yn ein hardal. Perthyn y jac y do i deulu'r corfid - maent yn ddu, gwddf llwyd arian a llygaid llwyd gwelw. Maent yn hedfan i mewn gan ymuno'n stwrlllyd dros y caeau. Mor wahanol i'r drudwys sy'n creu swm llawer tawelach wrth iddynt baratoi clwydo am y nos. Clywir y jac-y-dos a'u galwad eglur Cyjaac yn eglur wrth iddynt ymgasglu. Wedi cyrraedd o bob cyfeiriad maent yn ymuno mewn un haid i hedfan mewn cylchoedd lan a lawr cyn clwydo am a y nos. Gall hyn i gyd bara am rhyw 5 munud, ond fel daw'r twyllwch bant a nhw i'r goedwig yn stwrlllyd o hyd. Mae'r patrymau hyn yn digwydd led led y byd, gyda'r egrets yn Sri Lanka a'r ibis coch yn Nhrinidad - a nawr y jac-y-dos yn Llanpumsaint.

Os am wyllo'r holl sioe rhowch wybod i mi - byddai noson sych eglur yn ddelfrydol ond cyn y Gwanwyn pan fyddant yn diflannu er mwyn nythu.

Carolyn Smethurst 01267 253308

Cyfarchion y Tymor oddi wrth Vi a Dave Robinson

Yn danfon ein dymuniadau gorau i'n cyfeillion â'n gymdogion yn y pentref a'r ardal. A chroeso twym galon i'n cymdogion newydd y Brynhyfryd, sef Genean a Josh. Byddwch yn caru i fod yma gyda phawb mor gyfeillgar. Mwynhewch yma!

Nadolig Llawen a blwyddyn newydd dda llewyrchus c heddychlon. Ein diolchiadau am y gefnogaeth a'r caredigrwydd anfonwyd atom mewn blwyddyn drafferthus Yn lle anfon cardiau byddwn yn gwneud cyfraniad i Lais y Llan.

Byddwch yn ddiogel ac iach - Vi a Dave

Y Cwtsh Cynnes dydd Iau

Symudodd fy mam a minnau yma ym Mis Gorffennaf o Ddyfnaint. Bues erioed a diddordeb men crefftwaith, o wnïo a chwiltio i baentio sidan a pheintio dyfrlliw. Mae lliw bob amser yn tynnu'r gorau ohonof. Felly roeddwn wedi fy nghyffroi i weld fod y Cwtsh Cynnes yn cynnig Cylch Crefft yn cyfarfod ar fore Iau. Araf wyf i gymysgu a phobl ddiarth, yn fewnblyg yn amyl, felly yn betrusgar iawn gwnaeth fy Mam a finnau roi ein pennau drwy ddrws y Neuadd m y tro cyntaf. Rhyddhad o'r mwyaf wedyn i dderbyn y croeso twymgalon. Cyflwyniad i Frodwaith oedd hi'r wythnos honno, er yn gyfarwydd â'r grefft barod oeddwn i arbrofi a dulliau eraill, ond yn bwysicach na hynny daeth cyfle i wneud cyfeillion hapus newydd.

Mae'r cylch wedi ein galluogi i fod yn rhan o'r gymuned, men awyrgylch gynnes a chyfleoedd i arbrofi men gweithgareddau crefft newydd na wnaethoch o'r blaen naill a'i eu cynnig na'i hystyried. Yn fwy na hynny hefyd mae yma gyfle i gloncan a chwerthin dros gawl cynnes a phaned gyda phobl gwar. Felly diolch i bawb am fod mor groesawgar ac os i chi'n meddwl am ddod - Dewch am hwyl.

Karen Morrow



Gwneud masgiau adeg Hanner Tymor

Dawns a Chinio Unigryw 2024 – Nos Sadwrn 17eg Chwefror



Mae hwn bellach yn ddigwyddiad blynyddol. Bydd yn digwydd yn y Neuadd Goffa gyda'r drysau'n agor am saith o'r gloch, NO Mean Biscuit fydd y band i chwarae cerddoriaeth Siglo a Lladin, fydd yn eich annog i ddawnsio. Addurnir y Neuadd fel arfer gydag ychwanega'u a goleuadau i greu awyrgylch unigryw ac mi fydd yna Far wrth gwrs. Unwaith eto cawn bryd o fwyd blasus dau gwrs wedi ei baratoi gan bentrefwyr. Os ydych am gynnig rhywbeth blasus codwch y ffon i fi, oherwydd mwyaf i gyd yr amrywiaeth mwy i gyd y pleser..

Daw hyn i gyd am £15 y person gyda'r holl elw i'r Neuadd Goffa. Byddai'n gymorth mawr i ni pe baech yn ffonio i fwcio bord er mwyn osgoi gofid ar y noson. Gallai fod yn llawn.

Barry 07887834133 i fwcio tocynnau – dyma'r rhif hefyd os am gynnig coginio.

Eglwys Llanpumsaint

Yn gyntaf gadewch i ni estyn croeso twym galon i'r Parchedig Timothy Nelson a'i deulu fydd yn symud i mewn i'r Ficerdy. Rhaid diolch hefyd i'r bobl hynny fentrodd allan ar noson oer a gwlyb i rannu mins peis a gwin cynnes – rhywbeth i'w wneud eto flwyddyn nesaf.

Digwyddiad i'r plant lleiaf yw Chwarae Gyda Duw ar ddydd Mawrth o 3.30 hyd 5 o'r gloch. Bu yna lawer o newid eleni ond mae pethau'n sefydlogi erbyn hyn.



Y Caffi Bach ar fore Mawrth –
croeso cynnes i bawb!

Hoffwn weld mwy o blant yn dod i fwynhau stori, gwaith crefft a danteithion. Gofynnir i'r rhieni aros i helpi'r plant a dod a'u bwyd eu hunain er mwyn osgoi heintiau.

Cylch DOT - 5.30 hyd 7 o'r gloch i blant o 11 oed lan. Diolch yn fawr i'r Parch Kristie sydd wedi rhedeg y fenter ers ymadawiad y Parch Gaynor. Maent wedi derbyn amrywiaeth o weithgareddau ac archwilio ystyr ffydd. Daw hyn oll yn rhad ac am ddim, a chyda cefnogaeth y Fferm Wynt buont hefyd yn Bowllo.

Y Caffi Bach - Dydd Mawrth - 11.30 hyd 2.30yp. Gallwch sicrhau dderbyn croeso cynnes a chyfle i gyd-gwrdd a nifer o drigolion Llanpumsaint. Diod gynnes am 50c a thopo lan am ddim. Mae'r Caffi hyd yn gwerthu danteithion gan gynnwys cacennau Cymreig, creision ac amrywiaeth o fisgedi a siocled. Weithiau daw gwirfoddolwyr miwn a chacen neu dost i'w mwynhau.

Mae'r gwasanaethau'n parhau ar y Sul am 9 o'r gloch y bore – gwylwch yr hysbysfwrdd neu dewch i'r Caffi Bach am ddyddiadau eraill. Dewch atom i roi cynnig arni, efallai dyma sydd angen arnoch!

Eglwys Llanpumsaint

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Yng nghyfarfod Y Cyngor ar y 14eg o Dachwedd pleidleisiwyd ynghyd a 300 o gynghorau eraill i gefnogi drafft y Mesur Hinsawdd ac Ecoleg. Mae'r angen i wynebu newid i'r hinsawdd ac ecoleg yn weladwy iawn o'n hamgylch, o dywydd eithafol anghyffredin yn creu tymheredd annisgwyl, stormydd, llifogydd a thanau'n rhwygo drwy goedwigoedd a thiroedd. Datgelodd yr Adroddiad Cyflwr Natur yng Nghymru fod 1 o bob 6 rhywogaeth dan fygythiad ac 1 o bob 4 aderyn ar y rhestr goch beryglus. Bu yna 20% leihad yn niferoedd y rhywogaethau ers y 1990degau.

Mae'r Mesur Hinsawdd ac Ecoleg yn tanlinellu' angen am gynllun unol i'r hinsawdd sy'n ystyried yr hinsawdd a'r byd natur. Mae blaenoriaethu'r angen nid yn unig ar atal dirywiad ond yr angen i adennill, drwyn gwtogi ar ollwng nwy tŷ gwydr i'r targed 1.5C. Dylid hefyd ystyried ol-troed byd eang Teyrnas Prydain (cludiant rhyngwladol a chynyrchiadau mewnforio). Daw consensws ar y ffordd orau ymlaen drwy ymgynghori a'r cyhoedd dan arweiniad cynulliad annibynnol ar yr hinsawdd a'r byd natur.

Beth allwn wneud yn wyneb y fath her? Ewch i Sero, Canolfan Gymunedol Amgylchedd stryd Sant Catherine Caerfyrddin. Maent yn cynnal siop riparo cyfarpar y tŷ yno bob ail Sadwrn o'r mis. Ewch yr y bws yn lle gyrru'r car, mae'n rhad i'r rhai dros 60 oed, Defnyddiwch lai o blastig, peidiwch wastraffu cymaint o fwyd, Prynwch lai o bethau. "Y ddelwedd yw os i ni gyd a gymerid camau bach"

Ar nodyn gwahanol gwelir Adroddiad Blynyddol Cyngor am 2022-23 ar ein gwefan <https://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en/>

Clwb Gwili Chwedeg

Ar ddydd Llun y 23ain o Hydref cawsom gyflwyniad bywiog gan aelodau Cymdeithas Gwenwn Si Gaerfyrddin yn egluro sut maent yn gofalu amdanynt ac yn casglu mêl. Cytunodd Dave Robinson un o'n haelodau o Lanpumsaint i gael ei wisgi lan ac yna'n ffordd i fynd ati i gasglu'r mêl. Yn gyntaf rhaid oedd cyflwyno mwg i'r gwenyn i'w taweli cyn arddangos y dechneg. Daeth dim niwed i neb, ac er mawr ryddhad i Dave oedd na ddim gwenyn yn bresennol.

Er gwaethaf y tywydd bu ein taith Twrci a Thinsel i Wlad yr Haf yn llwyddiant, ac yn arbennig ein hymweliad gwefreiddiol ag Eglwys Gadeiriol Wells, a gweld yr elyrch yn tynnu ar y gorden i atgoffa'r ceidwad fod hi'n amser bwyd. Bu hyn yn digwydd am ganrifoedd meddent.

Byddwn yn cwrdd yn Neuadd Bronwydd am 2 o'r gloch – Mae'r maes parcio'n gallu fod yn brysur.

- Llun 22ain Ionawr – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Llun 26ain Chwefror - Dathlu Dydd Gŵyl Dewi
- Llun 25ain Mawrth - Jeremy John - Pwnc i'w gadarnhau.

Aelodaeth nawr yn £10. Mynediad £2 i gynnwys y raffl. Gwybodaeth bellach oddi wrth Val Giles 01267 281194

Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae' dewinio'n ymarfer defnyddiol a diddorol ac yn hawdd i'w ddysgu. Credir iddo gychwyn yn yr Aifft neu hyd yn oed yn gynharach. Gwelir cwmnïau'n defnyddio dewinwyr profiadol i ganfod dŵr, mwynau, olew, gwifrau trydan ac yn y blaen. Gwelir rhai yn dewinio iechyd eu bwyd, neu ganfod straen geopathig yn yr amgylchfyd, ond cred bersonol yw hyn heb gadarnhad gwyddonol hyd yn hyn. Pam na ymunwch a ni i ganfod pethau dros eich hunan. Fel arfer down o hyd i amser ar ddiwedd ein cyfarfodydd i roi gwers fer, neu'n well fyth dowch ar un o'n hymweliadau.

- Traddododd **Tom Bennet** yn ddiddorol ei sylwadau ar Sir Benfro Neolithig. A'i angerdd diweddaraf, sef ymchwilio i sut cludwyd Carreg Allor Cewr y Ceiri 650 milltir o Ynysoedd Orcni i orllewin Lloegr. Er hynny nid oedd nifer o'r Dewinwyr yn cyd-fynd a'i ddaliadau, yn dewis aros gyda'r gred iddi ddod o Sir Benfro. Falle daethant o'r ddau le!
- Mae **Ros Briagha** yn ddewinwr profiadol a hi hefyd yw ein Hysgrifennydd Siaradwyr, Bu'n aelod am sawl blwyddyn. Yn dilyn poblogrwydd llynedd cawsom ragor ganddi am Sêr-ddewiniaeth, gan edrych at siartiau nifer o bobl yn y newyddion. Drwy edrych arnynt gallwn ddeall yn well digwyddiadau cyfoes ein hoes. Gall hefyd edrych ar siartiau unigolion yn y cyfarfod i egluro llawer amdanynt. Gan taw hwn oedd cyfarfod olaf y flwyddyn ymddangosodd i mins peis traddodiadol gyda'r paned..

Cynhelir ein cyfarfodydd yn Neuadd Bronwydd - 1.45 m 2 o'r gloch

- **Sul 28ain Ionawr 2024** Unwaith eto daw Shelly Underhill-Savage i'n diddori gyda'r Bath Sŵn, gan ddefnyddio nifer o gyfarpar gan gynnwys congs. Cynghorir chi i ddod a charthen, neu rywbeth tebyg, i roi drosoch ar y gadair neu ar y llawr. Mae'n debygol fod cyrff y rhan fwyaf yn oeri wrth fyfyrion
- **Sul 25ain Chwefror** – Mark Oriel – Dysgu Shamataidd
- **Sul 24ain Mawrth** – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Aelodaeth blwyddyn nawr yn £20 . Mynediad £6 i aelodau + y raffl. Os nad yn aelod £6 am y cyfarfod cyntaf ond £10 am yr ail – wedi hynny disgwylir i chi ymuno. Dim angen cyfarpar jyst dewch a'ch hunan.

Am y diweddaraf ewch i'n Facebook ne'r wefan – <http://westwalesdowers.org.uk> neu ffonio Sandy 01267 253547 neu westwalesdowers@gmail.com

Bioamrywiaeth 26-28 Ionawr 2024 - Arolwg Fawr Adar Gerddi


Mae tudalen Facebook Bioamrywiaeth Llanpumsaint yn adrodd yn gyson ar fywyd gwyllt o gwmpas y pentref. Er mae adar yw'r testun amlycaf ceir adroddiadau am goed, blodau, ffyngau, pryfed, wybren y nos, a chwilota. Ymunwch a'r cylch i rannu lluniau, bywyd gwyllt welwyd, (adar planhigion ac anifeiliaid), afonydd, coed ac yn y blaen, yn Llanpumsaint, Ffynnonhenri a Nebo.

Ar derfyn Ionawr bydd cyfle i ymuno ac Arolwg Fawr Adar Gerddi gyda'r RSPB, fydd yn cynnig darlun sydyn o gyflwr ein hadar. Collwyd 38 miliwn o adar Prydain o'r awyr yn ystod yr hanner can mlynedd olaf., felly mae'n hanfodol bwysig i wneud yr hyn allwn i amddiffyn ein hadar. Ar derfyn Ionawr daw cyfle i ymuno ag Arolwg Fawr Adar Gerddi RSPB, bydd hyn yn cynnig cipolwg holl pwysig ar gyflwr yr adar. Collwyd 38 miliwn o adar y ffurfafen yn Prydain dros yr hanner canrif olaf. Felly mae'n holl bwysig gwneud ein gorau glas i'w hamddiffyn.

Y llynedd cymerodd 17 cartref yma yn arolwg yr RSPB, gan gofnodi'r adar yn eu gerddi am un awr. Rhannwyd y wybodaeth rhyngom er mwyn cael darlun lleol o'n sefyllfa. Nodwyd 31 gwahanol fath o adar, gan gynnwys 3 oedd ar restr fer goch y gadwraeth (drudwen, Llinos Werdd, Gwylan y Penwaig); a 6 arall ar y rhestr beryg Oren (Ji-Binc, Titw Penddu, Llwyd y Gwrych, Siglen Lwyd, Aderyn y To, Pioden).

Mae'r RSPB bob amser yn datgan pwysigrwydd glendid er mwyn osgoi clefydon adar yn ymledi. Dylid glanhau canolfannau bwydo'n wythnosol a llestri dwr yn newid yn amyl. Os am ymuno eleni cofrestrwch gyda RSPB:

(<https://www.rspb.org.uk/whats-happenin/big-garden-birdwatch>) i gael eich cyngori ar sut i gymerid rhan. Anfonwch gopi o'r canlyniadau clarebish@yahoo.co.uk am ein dadansoddiad i ardal Llanpumsaint.



Aros ydw i gael fy rhifo –
Clare Bishop

Adroddiad diwedd tymor yr Ysgol



Tymor prysur iawn yn cystadlu a chymryd rhan mewn cystadleuthau a gweithgareddau megis Tag Rygbi'r Urdd i flwyddyn 3 a 4, Gŵyl Pêl Droed gydag Actif a chystadleuaeth Cogurdd, Da iawn i Betsan am ddod yn ail yn y gystadleuaeth Rhanbarth.

Diolch i'r holl blant sydd wedi cymryd rhan a

chynrychioli'r ysgol yn wych!

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch yn Eglwys Llanpumsaint ar ddydd Mercher Hydref 18fed. Codwyd tua £200 i'r Bad Achub ym Mhorth Tywyn. Diolch i bawb am ein cefnogi ac am eu cyfraniadau hael iawn.



Diwrnod i'r brenin yn treulio diwrnod yng nghoedwig Brechfa yn gwneud amryw o weithgareddau fel rhan o'r Prosiect Cynefin.



Bu'r disgyblion a'r staff yn gwisgo pyjamas a gwallt gwylt er mwyn codi arian i Blant Mewn Angen. Diwrnod llawn hwyl a sbri a chodwyd dros £80 i'r achos. Diolch unwaith eto am eich cyfraniadau hael.

Claire Kelly, Ysgol Llanpumsaint

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi'r Bingo Calan Gaeaf yn y neuadd ar ddiwedd mis Hydref. Cafwyd noson llawn hwyl a roedd yn grêt i weld y neuadd yn llawn a'r plant wedi gwisgo yn eu dillad Calan Gaeaf. Llwyddwyd i godi ychydig dros £700 i'r gymdeithas, noson arbennig. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at cefnogi gweithgareddau'r ysgol.



Efallai bydd rhai ohonoch wedi sylwi ar adeilad newydd sydd wedi ymddangos ar safle'r ysgol. Rydym yn hynod gyffrous fod y gymdeithas (trwy waith caled ein Trysorydd Catrin Eldred) a'r ysgol wedi sicrhau arian grant gwerth £12,000 gan Fferm Wynt Cymunedol Gorllewin Coedwig Brechfa i greu ystafell ddsbarth tu allan. Mwy o fanylion i ddilyn gan yr ysgol am fel byddan nhw'n defnyddio'r cyfleuster newydd. Edrych ymlaen at glywed yr hanes.

Gwyneth Ayers, Ysgfrifennydd y Gymdeithas

Anerchiad Maggie I ar Sul y Cofio

Annwyl Olygydd

Ar Sul y Cofio eleni cefais y fraint ar ran Aelodau Capel yr Annibynwyr Nebo i arwain y gwasanaeth yn Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri. Mae'r gwasanaeth hwn yn bwysig, nid unig i gofio'r rhai a aberthwyd ar faes y gad, sydd â'u henwau yma, ond am fod y Neuadd wedi eu coffau ar y mur, a'r sefydliad ei hunan wedi ei alw ers 1948 yn Neuadd Goffa, er cof amdanynt.

Cefais gwnni Arwyn Thomas, gynt o Bantglas yn y gwasanaeth; gŵr a fagwyd fel finnau yn Llanpumsaint ac sydd wedi ysgrifennu 6 Llyfr sy'n cynnwys nid yn unig hanes y bechgyn a gollwyd ond hefyd y gymuned leol ar hyd y blynyddoedd. Cafwyd gan Arwyn fraslun o hanes y bechgyn hyn; eu cartrefi lleol, eu rhan yn y rhyfeloedd a'r mynwentydd lle rhoddwyd hwy i orffwys.

Mae Llanpumsaint wedi newid llawer yn ddiweddar ond erys y Neuadd Goffa yn sefydliad pwysig i'r gymuned. Braff yw deal bod y Neuadd Goffa yn ganolfan cyfarfod i lawer ar hyn o bryd, yn cynnig llawer o weithgareddau a dymunaf bob hwylustod i Bwyllgor y Neuadd wrth sicrhau ei dyfodol.

Unwaith yn rhagor diolchaf am gael arwain y gwasanaeth eleni a dymunaf bob bendith i chi i'r dyfodol. Dymuniadau Gorau,

Margaret Griffiths

Peth cefndir i'r bechgyn ar y Gofeb Coffa

Yn dilyn cyflwyniad ar Sul y Cofio i'r bechgyn ar y Gofeb, teimlwyd y gallai cynulleidfa ehangach o ddefnyddwyr y Neuadd elwa o'r wybodaeth hyn. Gosodwyd y Gofeb gyntaf er cof am fechgyn yr Ail Ryfel Byd yn 1948, ac felly daeth yr adeilad, oedd yno ers 1928, yn Neuadd Goffa. Ganed Elwyn Griffiths yn un o un ar ddeg o blant ym Mwlchgwyn, ond Elwyn Pantiouar Nebo oedd e' i bawb. Yn yrrwr penigamp daeth yn Despatch Rider yn y fyddin, ond cafodd ei ladd yn ystod ymarferion yng ngogledd Lloegr. Claddwyd ef yn ôl yn Eglwys Llanpumsaint yn 1942. Blaencors, hanner ffordd rhwng y Graig a Phontarsais fu cartref Ifan Lloyd Thomas. Wrth ymladd gyda'r Royal Artillery cipiwyd ef gan filwyr Japan. Carcharwyd ef a'i osod i weithio are reilffordd Burma. Bu farw mewn caethiwyd o afiechyd. Aeth ei chwaer Rachel Hannah a'r teulu allan i weld y bedd yn Tailand yn 1996. Codwyd Percy Thomas yn Gwarcwm, tŷ cyntaf uwchben Rhiw Cwppers, ac fe ddisgleiriodd yn ysgol Ramadeg Caerfyrddin, ond y cyntaf o'r cyn-ddisgyblion i farw yn y rhyfel. Aeth yn rheolwr radio gyda'r RAF ond fe'i lladdwyd wrth i'r awyren chwalu wrth lanio mewn niwl trwchus. Claddwyd yntau ym mynwent yr Eglwys.

Mae'n ddirgelwch na chyfeiriwyd o gwbl at y Rhyfel Byd Cyntaf yma yn 1948, er i gofeb eraill led y wlad gynnwys y ddwy yn gyson. A oedd yna awydd i anghofio popeth am y gyflafan honno? Oherwydd i rai teuluoedd symud i ffwrdd oedd hyn wedi cymhlethu pethau? Ansicrwydd efallai am sawl un fu beth bynnag? Dyfalu gwnawn heb sail ffeithiau. Beth bynnag pan wnaeth yr Awdurdodau Milwrol ryddhau dogfennau adeg y canmlwyddiant cychwyn y Rhyfel yn 2014, ddaeth cyfle i ymchwilio a thwrio i'r cefndir. Yn y diwedd syndod fu darganfod fod yna chwech o fechgyn yn gysylltiedig â Llanpumsaint, ac un arall ym Mronwydd yn haeddu cael eu cofio. Chwarae teg mi wnaeth y ddau Gyngor Cymuned ymateb y syth a chadarnhaol a threfni gofio'r colledig ychwanegol.

Daeth teulu Ben Davies i gartrefu yng Nghwmgreigiau Bach tra aeth dau o'r meibion i'r rhyfel gyda Ben yn ymuno a'r King's Royal Rifles. Wedi ei anafu yn Ffrainc bu farw mewn ysbyty yng Nghaint, ac yna ei gladdu 'nol ym mynwent Caersalem yn Llanpumsaint. Goroedd ei frawd Wil i ddychwelid i Lanychen Llanpumsaint. Mab yr Ysgol Feistr lleol oedd Emrys Morris, ac yn llawn brwdfrydedd ymaelododd yn y Fusiliers Cymreig. Yn ddibrofiad fe'i saethwyd ar y Somme, a'i gladdu yng ngwlad Belg, ond mae yna gyfeiriad iddo ar fedd y teulu ym mynwent y cyn-gapel Bethel. Pan ddadorchuddiwyd y gofeb i filwyr Cymreig y Rhyfel Gyntaf yn Belg yn 2014 tanlinellwyd gyrfa un milwr ar y rhaglen swyddogol. Syndod mwyaf i Emyr Frongoch oedd yno fu gweld mae bachgen lleol oedd hwnnw. Magwyd Henry Howells, gwnaed yn Uwch Swyddog pan yn ifanc, yn Penllwynuchel Nebo. Wedi ymladd yn ddewr mewn nifer o frwydrau bu farw o'i anafiadau i'w gladdu yn Mendingham yng ngwlad Belg. Gwelir cyfeiriad iddo ar fedd ei dad ym mynwent yr Eglwys leol.

Cyflogwyd Daniel Lewis Bwlchyrhyd gan adeiladwyr enwog teulu Daniels yn Bronwydd ac 'roedd yn hapus yn ei waith. Gorfodwyd ef i ymuno yn 1917 ac er yw gyflogwr wneud Apêl, fe'i hanfonwyd i ymuno a'r Royal Engineers yng ngogledd Cymru. Bu farw yn ysbyty Bangor wedi i'w daro gan menanjitis, a dychwelwyd y corff i fynwent Caersalem Llanpumsaint. Fferm Penllwyniorwg fu cartref William John Bowen, ac o ben draw ardal Nebo bu Ysgol Cynwil yn llawer agosach iddo na Llanpumsaint. Wedi ymuno a'r Sherwood Foresters lladdwyd ef yn

Ffrainc yn 1918 a'i gladdu yno. Codwyd y Rhingyll John Griffiths yn Waunfawr ger y Garreg Hir, sydd bellach yn ddiflanedig yn y goedwig yno. Mae'n debygol iawn iddo fod yn perthyn i'r enwog unigryw John Waunfawr aeth yn ôl i fyw'n gyntefig. Eglura hyn efallai pam y datblygodd yn filwr mor fedrus gyda'r bydyn Gymreig. Ymladdodd ei ffordd drwy'r holl frwydrau o 1915 ymlaen, ond yn anffodus ar y terfyn cael ei ladd wythnos yn unig gyn y terfyn. Claddwyd yn Ffrainc.

Gobeithio y gwna'r ychydig ffeithiau uchod ychwanegu ychydig ar yr enwau moel ar y mur yn y Neuadd Goffa. Cymeriadau amrywiol gyda hanesion gwahanol geir yma, ond i gyd yn rhannu hwb a damwain dyddiad geni wnaeth dorri'n llym ar hyd eu bywydau. Dychwelodd nifer o gyflafan y Rhyfel Gyntaf ond prin iawn oeddent i drafod dim, sydd efallai'n rhannol gyfrifol i bethau'n mynd yn angof.

Ceir mwy o fanylion amdanynt yn y Llyfr Cofio a Mwy – Arwyn Thomas

EWLWYS LLANPUMSAINT CHURCH

“60” ENILLWYR GWOBRAU'R CLWB – 2023

MIS	ENW	GWOBRAU	RHIF UNIGRYW	MIS	ENW	GWOBRAU	RHIF UNIGRYW
IONAWR	Sian Griffiths,	1 st	71	GORFFENNAF	Gareth & Meryl Davies	1 st	77
	Arwyn Thomas	2 nd	85		Douglas Bradshaw	2 nd	1
CHWFROR	Twm Rees	1 st	89	AWST	Ray Davies	1 st	52
	Beryl Griffiths	2 nd	33		Lyn Morgan	2 nd	17
MAWRTH	Marcus Jones	1 st	72	MEDI	Paul Clift	1 st	88
	Anne Wyke	2 nd	56		Lyn Evans	2 nd	43
EBRILL	Bob Jameson	1 st	13	HYDREF	Ruth Hill	1 st	55
	Anne Ryder-Owen	2 nd	31		Andrew Griffiths	2 nd	14
MAI	Andrew Griffiths	1 st	14	TACHWEDD	Anne Ryder-Owen	1 st	31
	Yvonne Davies	2 nd	24		Rhianydd Evans-Jones	2 nd	51
MEHEFIN	Darryl Law	1 st	37	RHAGFYR	Edwina Jones	1 st	58
	Sally James	2 nd	61		Neil Owens	2 nd	34
					Haydon & Frances Jones	3 rd	95
					Geraint Hughes	4 th	60
					Vi Robinson	5 th	15